4.12

Boreu Sabbath.

Cyflwynedig i Mr. W. E. Thomas, Ebenezer, Trecynon.

FENDIGEDIG foreu,
Sabbath newydd yw;
Braint yw cael ei ddechreu
Yng nghynteddau Duw.

Sabbath glân a sanctaidd—
Dydd addoli yw;
Plygwn ninnau'n wylaidd
Wrth allorau Duw.

Treuliwn hwn i'r Arglwydd—
Dydd i foli yw;
Canmol, mewn llawenydd,
Wnawn ddaioni Dnw.

Am ei drugareddau,
Dydd i ddiolch yw;
Tynnwn o ffynhonnau
Addewidion Duw.

Dydd i dderbyn bendith
Adnewyddol yw;
Ceisiwn oll yn ddilyth
Ddydd ar Fynydd Duw.

T.W.

HY. LLOYD (AB HEVIN) ABERDARE.

X 265.2 Z 1959

7460